Meithrin

Maes Dysgu	Cefnogi	Abl	Sialens
Datblygiad Personol, Cymdeithasol ac Emosiynol	Gall ddefnyddio rhaglen gyfrifiadurol sylfaenol am gyfnod byr o amser, yn aml gyda'r angen am gymorth gan oedolyn.	Gall ddyfalbarhau am gyfnodau hwy o amser ar weithgaredd cyfrifiadurol o'u dewis.	Gall ddefnyddio clustffonau'n effeithiol a deall ac esbonio pwysigrwydd o gadw'r sain ar lefel synhwyrol.
Cyfathrebu, Iaith a Llythrennedd	Gall ymateb i gyfarwyddiadau syml (e.e. clicio llygoden, trin recordydd tâp, neu fotymau sylfaenol crwban llawr).	Gall ddefnyddio pecyn tynnu llun i lunio a pheintio, gan roi ystyr i farciau ar brydiau.	Wrth ddefnyddio rhaglen 'Llyfrau Mawr Rhyngweithiol', gall drafod delweddau ar y sgrin ar ôl i oedolyn ddarllen y testun.
Datblygiad Mathemategol	Defnyddio'r llygoden i bwyntio at siapiau 2D syml ar ôl mewnbwn gan oedolyn.	Defnyddio sgiliau 'clicio a llusgo' i symud gwrthrychau i'r man priodol mewn rhaglen drefnu.	Wrth ddefnyddio rhaglen antur neu efelychiad syml, gall reoli gwrthrych ar y sgrin trwy ddefnyddio'r bysellau saeth, e.e. 'Bob the Builder'.
Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd	Gall arddangos diddordeb mewn offer Technoleg Gwybodaeth a dangos gofal wrth ddefnyddio eitemau megis y cyfrifiadur neu offer gwrando.	Gall labelu rhannau o'r cyfrifiadur pan fo labeli lluniau ar gael.	Defnyddio amrywiaeth o raglenni sy'n gofyn am sgiliau 'clicio a llusgo' sy'n arddangos dealltwriaeth o ymwybyddiaeth mewn meysydd eraill, e.e. mewn gwyddoniaeth, symud gwrthrychau a fydd yn arnofio neu'n suddo i'r man cywir ar y sgrin.
Datblygiad Corfforol	Deall fod symud y llygoden yn effeithio ar leoliad y cyrchwr ar y sgrin.	Defnyddio rhaglenni lle mae'n rhaid clicio'n bwrpasol ar wahanol symbolau i gael gwahaol ymateb, e.e. gwrando ar eiriau'n cael eu hadrodd, gwylio animeiddiad syml neu i symud ymlaen i dudalen arall.	Defnyddio dull 'clicio a llusgo' i symud gwrthrychau o gwmpas y sgrin, e.e. i roi darnau o'r corff at ei gilydd.
Datblygiad Creadigol	Gall ddefnyddio'r botymau 'chwarae' ac 'atal' yn briodol ar chwaraeydd CD. Gall chwarae cerddoriaeth ac ymateb i'r sain gyda symudiadau corfforol.	Gall wahaniaethu lliwiau trwy ddefnyddio rhaglen gyfrifiadur i gyfateb.	Gall 'ddal' profiadau trwy ddefnyddio technoleg gwybodaeth, e.e. recordio cerddoriaeth ar recordydd tâp, arlunio â phecyn tynnu llun a phwyntio camera digidol i'r cyfeiriad cywir wrth wasgu botwm i ddal llun.